



**GIG Cymru**  
**Polisi Cefnogi Colli Beichiogrwydd**

**Fforwm Partneriaeth Cymru**  

---

**Welsh Partnership Forum**

GIG Cymru yn  
Cwethio mevn Partneriaeth

NHS Wales  
Working in Partnership



# GIG Cymru

## Polisi Cefnogi Colli Beichiogrwydd

### 1.0 Cefndir

1.1 Nod y polisi hwn yw darparu'r cymorth sydd ei angen ar gyflogeion yn ystod y cyfnod anodd hwn yn eu bywyd, a helpu rheolwyr a chydweithwyr i wybod sut i gefnogi pobl yr effeithir arnynt, gyda charedigrwydd, dealltwriaeth a heb farn.

1.2 Mae'n cefnogi cyflogeion beichiog a phartneriaid cyflogedig drwy golli beichiogrwydd ac yn eu hannog i deimlo'n hyderus i siarad â'u rheolwr, eu cydweithwyr a'u ffrindiau yn y gwaith am yr hyn sydd wedi digwydd. Mae'n herio agweddau bod colli beichiogrwydd yn bwnc tabŵ, a bod yn rhaid i bobl ddioddef yn dawel.

1.3 Os yw gweithiwr yn darllen y ddogfen hon, mae'n debygol ei fod naill ai'n mynd drwy'r cyfnod anodd iawn hwn neu'n cefnogi rhywun mewn sefyllfa debyg, felly cysylltwch â'ch adran gweithlu leol neu reolwr i siarad â nhw er mwyn sicrhau eich bod yn cael cymorth priodol.

### 2.0 Cwmpas

2.1 Mae cwmpas y polisi wedi'i ddiffinio yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: gamesgoriad, beichiogrwydd anembryonig, beichiogrwydd ectopig, beichiogrwydd molar, colli embryonau wrth drosglwyddo a therfynu beichiogrwydd.

2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr yn unig. Nid yw'n berthnasol i weithwyr asiantaeth, ymgynghorwyr, contractwyr hunangyflogedig, gwirfoddolwyr nac interniaid. Os nad ydych yn gyflogai ond wedi profi colled beichiogrwydd, rydym yn eich annog i siarad â'ch pwynt cyswllt arferol yn ein sefydliad [ein Hyrwyddwr Beichiogrwydd a Cholled Babanod] neu aelod o'r Adran Adnoddau Dynol. Byddant yn gallu trafod pa gymorth sydd ar gael i chi.

2.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr sy'n dioddef colled beichiogrwydd, ar unrhyw adeg cyn 24 wythnos, p'un a yw wedi digwydd yn uniongyrchol iddynt hwy, eu partner, mam fenthyg neu'r rhieni mabwysiadol mewn lleoliad mabwysiadu cymeradwy. Mae hefyd yn berthnasol waeth beth fo rhyw y gweithiwr, y math o gontract cyflogaeth, hyd gwasanaeth, rôl neu sylfaen.

2.4 Pan fydd gweithiwr sy'n disgwyl yn dioddef colled beichiogrwydd ar ôl 24 wythnos, bydd yn dal i fod â hawl i absenoldeb mamolaeth statudol ac SMP os caiff ei faban ei eni'n gynnar; yn farw-anedig ar ôl dechrau ei 24ain wythnos o feichiogrwydd neu'n marw ar ôl cael ei eni. Mae hyn yn ychwanegol at y darpariaethau yn Adran 23: Absenoldeb Profedigaeth Plentyn o Lawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG (bydd y darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai a gynhwysir yn adran 23 yn berthnasol i staff meddygol a deintyddol); yn ogystal â'r darpariaethau o fewn polisiâu sefydliadol lleol.

2.5 Os yw colled beichiogrwydd yn effeithio ar gyflogai ond nad yw'n cario'r beichiogrwydd, partner y gweithiwr sy'n cario'r beichiogrwydd neu'r rhiant arfaethedig mewn trefniant benthyg croth neu fabwysiadu, dylai siarad â'i reolwr llinell neu'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch sut gellir ei cefnogi.

2.6 Mae Sefydliad y GIG yn cydnabod y trallod, yn gorfforol ac yn emosiynol, a all ddeillio o golli beichiogrwydd a'r effaith y gallai hyn ei gael ar weithwyr unigol ni waeth pryd neu sut y mae'r golled yn digwydd. Paratowyd y polisi hwn i ddarparu amser i ffwrdd â thâl a chymorth mewn perthynas â cholli beichiogrwydd. Fodd bynnag, gwerthfawrogir na fydd unrhyw sefyllfaoedd yn union yr un fath, ac y gall colli beichiogrwydd arwain at alar yn wahanol i fathau eraill o alar. Anogir gweithwyr felly i drafod gyda'u rheolwr llinell neu aelod o'r Adran Adnoddau Dynol pa gymorth y gallent fod ei angen.

2.7 [Efallai y byddai'n well gan gyflogai siarad â'n Hyrwyddwr Beichiogrwydd a Cholled Babanod yn y lle cyntaf, gan gadw mewn cof y gallai fod angen cynnwys ei reolwr llinell neu'r Adran Adnoddau Dynol mewn trafodaethau dilynol.]

Sylwer: - Efallai y bydd cyflogwr yn dymuno penodi Hyrwyddwr Beichiogrwydd a Cholled Babanod. Byddai'r unigolyn hwn yn cael ei hyfforddi mewn beichiogrwydd a cholli baban ac efallai bod ganddo rywfaint o brofiad o'r math hwn o golled ei hun. Byddai penodi Hyrwyddwr Beichiogrwydd a Cholled Babanod yn galluogi gweithwyr sy'n profi colled beichiogrwydd i siarad â rhywun y tu allan i'w llinell adrodd ac AD a fyddai'n ddigon parod i wrando ar eu cwestiynau neu eu pryderon. Os bydd cyflogwr yn penodi Hyrwyddwr Beichiogrwydd a Cholled Babanod, dylid cynnwys cyfeiriadau priodol yn y polisi hwn.

### **3.0 Profi Colled Beichiogrwydd yn y Gwaith**

3.1 Os bydd colled beichiogrwydd yn dechrau tra yn y gwaith, anogir cyflogeion i siarad â'u rheolwr llinell neu gydweithiwr y maent yn ymddiried ynddo. Yna gallant drefnu i'ch cyswllt dewisol gael ei hysbysu a dod o hyd i le addas i chi aros tra bod unrhyw ofal meddygol yn cael ei drefnu, neu y gwneir trefniadau i chi deithio adref.

3.2 Cydnabyddir pa mor drawmatig y gall y profiad fod, yn gorfforol ac yn emosiynol. O ganlyniad, mae Sefydliad y GIG am sicrhau nad oes unrhyw weithiwr yn teimlo bod yn rhaid iddo fynd drwy'r profiad ar ei ben ei hun na pharhau â'i waith. Dylai rheolwr llinell y gweithwyr neu gydweithiwr gytuno â chi ar sut y bydd eich absenoldeb yn cael ei gyfleu i eraill, os oes angen.

3.3 Caniateir i gysylltiadau dewisol gweithiwr sy'n profi colled beichiogrwydd adael y gwaith ar fyr budd i roi cymorth.

### **4.0 Absenoldeb â Thâl - Colli Beichiogrwydd**

4.1 Mae gan y rhai yr effeithir arnynt gan golled beichiogrwydd, waeth beth fo'r rheswm (Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth), cyn wythnos 24 hawl i uchafswm o ddeg diwrnod gwaith o dâl llawn (pro-rata ar gyfer staff rhan-amser). Yn dibynnu ar ddymuniadau ac anghenion y gweithiwr, gellir cymryd y gwyliau fel diwrnodau/oriau

olynol neu ad hoc. Gwerthfawrogir efallai na fydd rhai gweithwyr eisiau cymryd gwyliau yn syth, neu o gwbl. Os yw gweithiwr am gymryd gwyliau o dan y polisi hwn, gofynnir iddynt ei gymryd o fewn 26 wythnos i gollu'r beichiogrwydd.

4.2 Os yw Sefydliad y GIG yn cyflogi'r gweithiwr yr effeithir arno gan gollu beichiogrwydd a'i bartner, bydd gan y ddau hawl i wneud cais am absenoldeb colli beichiogrwydd yn eu rhinwedd eu hunain.

4.3 Os bydd gweithiwr yn dioddef mwy nag un golled beichiogrwydd mewn blwyddyn galendr, bydd ganddo hawl i gael yr uchafswm o wyliau â thâl, fesul colled.

4.4 Er mwyn gwneud cais am absenoldeb yn dilyn colled beichiogrwydd, dylai'r gweithiwr gysylltu â'i reolwr llinell yn y lle cyntaf a fydd yn ei gynghori ar unrhyw drefniadau lleol. Gall gweithiwr hunan-ardystio unrhyw wyliau a gymerir yn unol â'r polisi hwn. Ni fydd yn ofynnol iddo ddarparu Nodyn Ffitrwydd na llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Gall y gweithiwr a'i reolwr gwblhau'r broses gais yn ôl-weithredol, ar ôl dychwelyd i'r gwaith, cyn belled â'u bod wedi trafod a chytuno ar lafar ar yr absenoldeb.

4.5 Cydnabyddir na fydd bob amser yn bosibl gwneud cais am absenoldeb colli beichiogrwydd ymlaen llaw. Fodd bynnag, anogir gweithiwr i siarad â'i reolwr llinell neu aelod o'r Adran Adnoddau Dynol cyn gynted â phosibl os yw'n ystyried cymryd absenoldeb colli beichiogrwydd yn unol â'r polisi hwn.

## **5.0 Gwyliau Ychwanegol**

5.1 Nid oes terfyn amser i adferiad emosiynol a chorfforol o golli beichiogrwydd. Gallai galaru barhau'n hirach na'r digwyddiad profedigaeth cychwynnol.

5.2 Mae'n bosibl felly y bydd angen cyfnod pellach o absenoldeb o'r gwaith ar y gweithiwr yn dilyn y cyfnod o absenoldeb â thâl. Gallai'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith a/neu'r Polisi Gweithio Hyblyg hwyluso'r absenoldeb ychwanegol gan y gweithiwr neu drwy gymryd gwyliau di-dâl. Ni fydd absenoldeb a gymerir o dan y polisi hwn yn cyfrif at ddibenion monitro o dan y polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith. Lle bo'n briodol, a chyda chaniatâd y gweithiwr, rhoddir ystyriaeth hefyd i atgyfeiriad galwedigaethol neu adleoli dros dro.

5.3 Mae Sefydliad y GIG yn cydnabod bod hyblygrwydd yn aml yn bwysig i weithwyr sy'n dioddef colled beichiogrwydd. Dylai rheolwyr, felly, anelu at hwyluso ceisiadau gweithio hyblyg ar gyfer y gweithwyr hyn, lle bynnag y bo modd. Ceir rhagor o ganllawiau ynghylch Gweithio Hyblyg ym Mholisi Gweithio Hyblyg Cymru Gyfan.

5.4 Rydym yn cydnabod y gall dychwelyd i'r gwaith ar ôl colli beichiogrwydd fod yn heriol a bydd y cymorth a ffeirir yn amrywio o un gweithiwr i'r llall. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn annog gweithiwr i siarad â'u rheolwr llinell am sut y gallant gefnogi dychwelyd i'r gwaith. Os oes gan weithiwr unrhyw awgrymiadau am gamau y gellir eu cymryd i'ch cefnogi yn ystod y cyfnod hwn, dylai drafod y rhain gyda'i reolwr llinell.

## 6.0 Amser i ffwrdd â Thâl ar gyfer Apwyntiadau Meddygol

6.1 Bydd hawl gan weithwyr i gael amser i ffwrdd â thâl ychwanegol i fynd i apwyntiadau beichiogrwydd cysylltiedig â cholled, neu i fynd gyda'u partner, pe na baent yn dod o fewn y cyfnod y cytunwyd arno o absenoldeb beichiogrwydd â thâl (10 diwrnod gwaith â thâl, staff rhan-amser pro-rata). Bydd hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i archwiliadau meddygol, sganiau a phrofion, ac apwyntiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

6.2 Dylai rheolwyr gydnabod na fyddai bob amser yn bosibl i weithwyr drefnu'r apwyntiadau hyn o amgylch gofynion eu gwaith, oherwydd natur colli beichiogrwydd. Felly, dylent gefnogi gweithwyr i reoli effaith amser i ffwrdd o'r gwaith, o dan yr amgylchiadau hyn.

## 7.0 Cefnogaeth Gyffredinol

7.1 Nod Sefydliad y GIG yw hwyluso amgylchedd gwaith agored a dealladwy. Anogir gweithwyr felly i hysbysu eu rheolwr eu bod yn dioddef colled beichiogrwydd yn gynnar. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol, mewn modd amserol.

7.2 Os nad yw gweithiwr yn teimlo'n gyfforddus i drafod y mater gyda'i reolwr llinell uniongyrchol i ddechrau, efallai y byddai'n ddefnyddiol cael sgwrs gyfrinachol gyda, e.e.

- Rheolwr neu gydweithiwr y gellir ymddiried ynddo;
- Gwasanaeth Llesiant Seicolegol y Staff;
- Aelod o'r Tîm Iechyd Galwedigaethol;
- Swyddog Profedigaeth Mamolaeth y Bwrdd Iechyd;
- Y Gwasanaeth Caplaniaeth;
- Elusen neu sefydliadau cymorth profedigaeth allanol (Gweler Atodiad 2);
- Aelod o'r Tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol; neu
- Cynrychiolydd Undeb Llafur

## 8.0 Cyfrifoldebau

8.1 Disgwylir i bawb fod yn sensitif i effaith colli beichiogrwydd ac ystyried eu cydweithwyr gyda charedigrwydd a dealltwriaeth.

8.2 Cyfrifoldeb y rheolwr yw cefnogi'r gweithiwr gyda charedigrwydd, tosturi a hyblygrwydd. Mae pob person yn wahanol, ac efallai y bydd angen addasiadau gwaith dros dro, neu lefelau eraill o gymorth, ar unigolion hefyd.

8.3 Mae gweithwyr sydd wedi profi colled beichiogrwydd yn cael eu hannog i estyn allan a siarad â rhywun y maent yn ymddiried ynddo cyn gynted â phosibl, os ydynt yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt neu eu cyfeirio.

## 9.0 Sôn am golled

9.1 Penderfyniad y gweithiwr yn gyfan gwbl yw p'un ai i siarad am ei golled neu faint i'w siarad. Bydd y sefydliad yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd agored a chroesawgar lle gall gweithiwr wneud hynny.

9.2 Yn yr un modd, gwerthfawrogir y gall fod amgylchiadau lle gallai gweithiwr fod eisiau cyfyngu ar nifer yr unigolion sy'n gwybod am eu colled beichiogrwydd, i'r graddau y mae hyn yn bosibl dan yr amgylchiadau. Os bydd gweithiwr yn dewis trafod colli beichiogrwydd gyda'i reolwr llinell, fe'i hanogir i siarad ag ef am sut yr hoffai i gydweithwyr gael gwybod am unrhyw absenoldebau cysylltiedig o'r gwaith.

9.3 Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch i ni am eich iechyd yn cael ei phrosesu yn unol â'n Polisi Diogelu Data. Rydym yn cydnabod bod y data hwn yn sensitif a byddwn yn ei drin mewn modd cyfrinachol.

Mae colled beichiogrwydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Camesgor:** colli beichiogrwydd yn ddigymell hyd at 24 wythnos o'r beichiogrwydd. [Gwybodaeth y GIG ar Gamesgor](#)
- **Terfynu:** gweithdrefn feddygol neu lawfeddygol i ddod â beichiogrwydd i ben. [Gwybodaeth GIG ar Derfynu](#)
- **Beichiogrwydd Ectopig:** pan fydd wy wedi'i ffrwythloni yn mewtblannu ac yn tyfu y tu allan i'r groth. [Gwybodaeth y GIG ar Feichiogrwydd Ectopig](#)
- **Beichiogrwydd Anembryonig:** pan fydd celloedd babi yn peidio â datblygu'n gynnar, a'r embryo bach yn cael ei adamsugno. Fodd bynnag, mae'r sach beichiogrwydd, lle dylai'r babi ddatblygu, yn parhau i dyfu. [Miscarriage Association Information on Anembryonic Pregnancy](#)
- **Beichiogrwydd Molar:** math prin o feichiogrwydd lle mae wy wedi'i ffrwythloni nad yw'n hyfyw yn mewtblannu yn y groth a bydd yn methu â chyrraedd tymor llawn. [Gwybodaeth GIG ar Feichiogrwydd-Molar](#)
- **Colled wrth drosglwyddo embryo** – pan na fydd yr embryo yn trosglwyddo yn ystod triniaeth ffrwythlondeb ac yn arwain at ddim beichiogrwydd. Dysgwch fwy am golled wrth drosglwyddo embryo [www.liverpoolwomensnhs.uk](http://www.liverpoolwomensnhs.uk)

## Elusennau a Sefydliadau Cymorth Profedigaeth Allanol

Mae llawer o elusennau yn y DU sy'n darparu cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth i'r rhai sy'n dioddef colli beichiogrwydd. Mae'r canlynol yn rhai o'r elusennau mwyaf a lle bo'n berthnasol, lleol:

### ♥ [ARC](#)

Mae'n elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth anweithredol i rieni cyn, yn ystod ac ar ôl sgrinio cyn-geini; pan ddywedir wrthynt fod gan eu babi anomaledd; pan fyddant yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch parhau â beichiogrwydd neu ddod â beichiogrwydd i ben, a phan fyddant yn ymdopi â materion cymhleth a phoenus ar ôl gwneud penderfyniad, gan gynnwys profedigaeth.

**Rhif ffôn:** 0207 713 7486. Mae llinellau cymorth yn cael eu hateb gan staff hyfforddedig o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10.00 tan 17:30pm.

### ♥ [Gofal Galar Cruse](#)

Mae gwirfoddolwyr profedigaeth hyfforddedig, sy'n cynnig cymorth emosiynol i unrhyw un y mae profedigaeth yn effeithio arnynt, yn staffio llinell gymorth genedlaethol rhadffôn Gofal Profedigaeth Cruse.

**Rhif ffôn:** 0808 808 1677

**E-bost:** [helpline@cruse.org.uk](mailto:helpline@cruse.org.uk)

Mae llinellau cymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 09.30 a 17.00 (ac eithrio gwyliau banc), gydag oriau estynedig ar nosweithiau Mawrth, Mercher a lau, pan fyddant ar agor tan 20:00.

### ♥ [London Friend LGBT Bereavement Helpline](#)

Cefnogaeth i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol sy'n disgwyl neu'n profi profedigaeth.

**Rhif ffôn:** 0207 7837 3337 Dydd Mawrth 19:30 i 21:30

**Tudalen we:** [www.londonfriend.org.uk](http://www.londonfriend.org.uk)

### ♥ [Miscarriage Association](#)

Yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r rhai sydd wedi profi camesgoriad, beichiogrwydd molar neu feichiogrwydd ectopig.

**Rhif ffôn:** 01924 200799

**Gwefan:** [www.miscarriageassociation.org.uk](http://www.miscarriageassociation.org.uk)

### ♥ [Llinell Gymorth Profedigaeth y GIG](#)

Nyrs gymwys sy'n gallu rhoi arweiniad a chymorth i unigolion sy'n dioddef colled beichiogrwydd sy'n rhedeg Llinell Gymorth Profedigaeth y GIG.

**Rhif ffôn:** 0800 2600 400 – Llinell gymorth ar agor bob dydd 08:00 i 20:00.

### ♥ [Petals - Yr Elusen Colled Babanod](#)



Mae Petals yn darparu gwasanaeth cwnsela rhad ac am ddim i gefnogi menywod, dynion a chyplau trwy'r dinistr o golli babanod. Mae eu rhaglen gwnsela yn diwallu anghenion y rhai sydd wedi dioddef cymhlethdodau beichiogrwydd, colli beichiogrwydd neu farwolaeth babi. Mae eu cynghorwyr yn arbenigwyr yn y maes hwn ac mae ganddynt flynyddoedd o brofiad rhyngddynt o gwnsela pobl ar ôl pob math o golli babi.

Rhif ffôn: 0300 688 0068

**E-bost:** [counselling@petalscharity.org](mailto:counselling@petalscharity.org)

**Gwefan:** [Petalscharity.org](http://Petalscharity.org)

#### ♥ [Stillbirth and Neonatal Death Society \(SANDS\)](#)

Yn croesawu galwadau gan unrhyw un yr effeithir arno gan farw-enedigaeth babi.

**Ffôn:** 020 7436 5881

**E-bost:** [helpline@uk-sands.org](mailto:helpline@uk-sands.org)

**Gwefan:** [www.sands.org.uk](http://www.sands.org.uk)

#### ♥ [Yr Ymddiriedolaeth Beichiogrwydd Ectopig](#)

Elusen genedlaethol gofrestredig a sefydlwyd i ddiwallu anghenion pobl sydd wedi profi beichiogrwydd ectopig a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanynt.

**Rhif ffôn:** 020 7733 2653

**Gwefan:** [www.ectopic.org.uk](http://www.ectopic.org.uk)

#### ♥ [Tommys](#)

Mae Tommys yn credu bod pob babi a gollir yn un yn ormod. Mae Tommy's yn bodoli i gefnogi, gofalu am a hyrwyddo pobl, ni waeth ble y gallent fod ar eu taith beichiogrwydd. Maent yn darparu cyngor arbenigol, dan arweiniad bydwagedd i rieni cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, gan weithio gyda'i gilydd tuag at feichiogrwydd mwy diogel ac iachach. Cliciwch yma am [Wybodaeth Cymorth Colli Babanod Tommys](#)

Os hoffech siarad ag un o fydwagedd Tommys am eich beichiogrwydd, neu os oes angen cymorth a chynghor arnoch ar ôl colli beichiogrwydd, gallwch gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol.

**Ffôn:** 0800 014 7800 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 09:00 i 17:00).

**E-bost:** [midwife@tommys.org](mailto:midwife@tommys.org)

**Gwefan:** [www.tommys.org](http://www.tommys.org)

#### ♥ [Y Samariaid](#)

Cefnogaeth llinell gymorth 24 awr bob dydd o'r flwyddyn i unrhyw un sydd mewn trallod, gan gynnwys y rhai sydd mewn profedigaeth.

**Rhif ffôn:** 08457 90 90 90

<http://www.samaritans.org>

#### ♥ [Canopi \(qiq.cymru\)](#)